



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## Templed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Enw'r polisi neu'r maes busnes:	Praesept Heddlu'r Dreth Gyngor
Enw'r unigolyn sy'n cynnal yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb:	Cheryl Gayther
Swydd yr unigolyn sy'n ymgymryd â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb:	Rheolwr Cydymffurfiaeth a Pherfformiad Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh)

### 1. Diben

1.1 Beth yw nodau'r Polisi, y Weithdrefn neu'r Gweithgaredd a sut y maen nhw'n cyd-fynd â nodau ehangach y sefydliad?	<p>Ffi flynyddol a godir gan gynghorau lleol ar gyfer y gwasanaethau lleol y maent yn eu darparu yw'r dreth gyngor. Y gyfradd praesept yw'r gyfradd dreth y mae cynghorau'n codi ar ran Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu er mwyn cefnogi gwasanaethau plismona.</p> <p>Un o gyfrifoldebau allweddol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yw gosod y praesept bob blwyddyn. Wrth wneud hynny, mae nifer o wahanol ffactorau'n cael eu hystyried, gan gynnwys gofyniad adnoddau i'r dyfodol y Prif Gwnstabl, lefel y cronfeydd wrth gefn, adborth gan breswylwyr Dyfed-Powys a chynlluniau i'r dyfodol ar gyfer buddsoddi mewn isadeiledd.</p> <p>Bydd hyn yn galluogi'r Heddlu i barhau i ganolbwyntio ar gyflenwi'r Cynllun Heddlu a Throseddu, mynd i'r afael â blaenoriaethau sydd wedi'u hamlinellu o fewn Datganiad Rheoli'r Heddlu, a pharhau i ddiogelu cymunedau Dyfed-Powys.</p>
1.2 Beth yw'r cymhellion neu'r grymoedd gyrru wrth ddatblygu'r Polisi, y Weithdrefn neu'r Gweithgaredd?	<p>Yn unol ag adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, mae gofyn i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu amlinellu'r penderfyniadau yn ymwneud â gofyniad cyllideb, y dreth gyngor a gofynion praesept.</p> <p>Amlinellir y broses y mae'n rhaid ei dilyn wrth gyhoeddi praesept yn atodlen 5 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.</p> <p>Mae'r cyfraniadau praesept yn sicrhau fod gan y CHTh y gallu i gyflenwi'r blaenoriaethau yn ei gynllun heddlu a throseddu, sef:</p> <p>Cadw ein cymunedau'n ddiogel</p>

Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed  
Amddiffyn rhag niwed difrifol  
Cysylltu â chymunedau

## 2. Asesiad

Er mwyn asesu'r effaith y mae'r Polisi, y Weithdrefn neu'r gweithgaredd wedi'i chael neu'n debyg o'i chael ar unigolyn, mae'n bwysig edrych ar yr holl ddata a gwybodaeth sydd ar gael ichi. Efallai y bydd yn angenrheidiol sicrhau gwybodaeth bellach trwy ymgynghoriad, y dylid ei gynnwys hefyd.

Rydych chi'n edrych ar duedd a all ddigwydd pan fydd gwahaniaethau sylweddol rhwng grwpiau o bobl yn y ffordd y mae'r Polisi, y Weithdrefn neu'r gweithgaredd yn effeithio arnynt, yng nghyswllt Nodweddion Gwarchoddedig (Oed, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred).

Wrth gynnal yr asesiad hwn, awgrymir y dylech chi ystyried:

- **Data yn ymwneud â data amrywiaeth personol** sy'n berthnasol i'r polisi. Er enghraifft, os yw'r polisi yn perthyn i gyflenwi gwasanaeth, yna rhaid ichi edrych ar ddata megis data CYFRIFIAD, ac unrhyw ddata amrywiaeth personol yr ydym yn ei gadw mewn perthynas â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny.
- **Data achwyniad** - mae'n bosibl y bydd yn adnabod materion a allai fod angen mynd i'r afael â hwy trwy asesiad effaith cydraddoldeb e.e. os oes cwynion yn ymwneud â hygyrchedd ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn yn y ddalfa, yna bydd yn rhaid mynd i'r afael â'r rhain trwy'r asesiad effaith cydraddoldeb wrth adolygu polisi'r ddalfa;
- **Unrhyw ymchwil sydd ar gael mewn perthynas ag anghyfartaledd yn ymwneud â'r mater polisi** – gallai hyn gynnwys adroddiadau AHEM, adroddiadau Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac ati. Er enghraifft, mae nifer o adroddiadau sy'n tynnu sylw at anghyfartaledd yn ymwneud â stopio a chwilio, ac amrywiaeth swyddogion yr heddlu y gellid eu hystyried wrth ddrafftio asesiadau perthnasol o'r effaith ar gydraddoldeb;
- **Ymgynghori gyda grwpiau amrywiol, gan gynnwys ein heiriolwyr amrywiaeth, aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol a rhwydweithiau cymorth staff.** Byddai hyn yn cynnig elfen o her allanol i'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac yn sicrhau bod barnau ein cymunedau amrywiol yn cael eu hystyried;
- **Unrhyw ddata arolwg sy'n bodoli mewn perthynas â'r mater hwn** gan gynnwys unrhyw adborth gan ddefnyddwyr yr ydym yn ei dderbyn. Efallai y gallai Gwella Busnes eich cynorthwyo chi o ran hyn.

Mae detholiad o ddata a allai fod yn ddefnyddiol i chi i'w weld ar [dudalen fewnwyd yr adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth](#). Os fyddwch chi angen unrhyw gyngor ynglŷn

â pha wybodaeth/data sydd angen i chi eu hystyried wrth ymgymryd â'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb, mae croeso ichi gysylltu â'r Rheolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar 23071.

Rhestrwch yr holl ddata/ymgyngoriad/ymchwil yr ydych wedi'u hystyried wrth gynnal yr asesiad hwn:

Gwneir penderfyniad ar lefel y praesept ar sail:

- Ymgynghoriad Cyhoeddus – Barnau gan y cyhoedd a gweithlu Heddlu Dyfed-Powys.
- Swyddfeydd CHTh Cymru – Meincnodi ymagwedd ddigidol
- Gofynion cyllideb yr heddlu.
- Gofynion cyllideb swyddfa comisiynydd yr heddlu a throseddu.
- Trafodaethau yng nghyfarfod y Panel Heddlu a Throseddu ar 05/02/21 lle y derbyniwyd y praesept arfaethedig.

### Rhowch fanylion canlyniad eich asesiad yn y graff isod:

Rhaid ichi nodi unrhyw ganfyddiadau fan hyn. A yw'ch ymchwil wedi adnabod unrhyw effaith negyddol neu anghymesur ar rai grwpiau? A ydym wedi derbyn cwynion gan rai grwpiau mewn perthynas â'r Polisi, y Weithdrefn neu'r gweithgaredd? A yw aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol wedi codi unrhyw bryderon? Nodwch unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn y graff isod.

### A allai'r Polisi, y Weithdrefn neu'r Gweithgaredd gael effaith anghymesur o negyddol ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchoddedig hon?

#### Ar gyfer pob nodwedd

Gallai  
Mae cynllun peilot yn Sir Gaerfyrddin eleni lle na fydd copi papur o'r hysbysiad praesept yn cael ei anfon at gartrefi. Bydd hyn yn cynnwys treialu symud dogfennau i lwyfannau ar-lein. Cyhoeddir yr hysbysiad ar wefannau SCHTh a Chyngor Sir Gaerfyrddin.

#### 2.1 Oed

Gallai  
Rhaid i unrhyw un sy'n 18 oed neu hŷn ac sy'n berchen ar gartref, neu'n ei rhentu, dalu treth gyngor.  
Ystyriwyd yr effaith ariannol ar gymunedau lleol a'r effaith negyddol anghymesur bosibl ar enillwyr cyflog is, pobl sydd wedi ymddeol a myfyrwyr.

<b>2.2 Anabledd</b>	Gallai Ystyriwyd yr effaith ariannol ar bobl sydd â nam meddyliol difrifol neu sy'n ofalwyr sy'n byw gyda'r unigolion maen nhw'n gofalu amdanynt.
<b>2.3 Ailbennu rhywedd</b>	Na
<b>2.4 Priodas a Phartneriaeth Sifil</b>	Na Mae bil treth gyngor llawn yn seiliedig ar o leiaf 2 oedolyn yn byw mewn cartref. Mae parau priod a phartneriaid yn gyd-gyfrifol am dalu'r bil.
<b>2.5 Beichiogrwydd a Mamolaeth</b>	Gallai Mae ystyriaeth wedi'i rhoi i'r effaith ariannol ar bobl ar absenoldeb mamolaeth a allai fod ar gyflog is am gyfnod penodol o amser.
<b>2.6 Hil</b>	Na
<b>2.7 Crefydd neu Gred</b>	Na

2.8 Rhyw	Na
2.9 Cyfeiriadedd Rhywiol	Na

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, rhaid gwneud yr ystyriaethau a ganlyn hefyd mewn perthynas â'r Gymraeg:

<p><b>2.10</b> Rhowch dystiolaeth o sut yr ydych chi wedi ystyried sut y byddai'r penderfyniad polisi wedi cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau cadarnhaol cynyddol, ar -</p> <p>a) cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	<p>Bydd y praesept arfaethedig yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi yn ddwyieithog, gan sicrhau felly nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>
---	---

**2.11** Rhowch dystiolaeth o sut yr ydych chi wedi ystyried na fyddai'r penderfyniad polisi hwn yn cael effeithiau niweidiol, neu sut y byddai'n cael effeithiau niweidiol gostyngol, ar —  
(a) gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Fel yr uchod

### 3. Cynllun gweithredu i ostwng yr effaith a adnabuwyd

Os oes effaith negyddol neu anghymesur wedi'i hadnabod, yna rhaid inni gymryd camau i ostwng neu ddileu'r effaith hon drwy wneud newidiadau perthnasol i'r Polisi, y Weithdrefn neu'r gweithgaredd.

Os ystyrir bod y Polisi, y Weithdrefn neu'r gweithgaredd sy'n achosi'r effaith yn gyfiawn, yna rhaid esbonio'n glir y rhesymau dros y casgliad hwn.

<b>Effaith a adnabuwyd:</b>	<u>Ar gyfer pob nodwedd:</u> Bydd y ffaith nad yw cartrefi yn Sir Gaerfyrddin yn derbyn copi papur o'r hysbysiad praesept yn effeithio ar breswylwyr sydd heb fynediad at lwyfannau ar-lein.
<b>Camau a gynigiwyd :</b>	Bydd copïau argraffedig o'r hysbysiad praesept ar gael ar gais. Mae hyn yn unol ag ymagwedd swyddfeydd CHTh eraill yng Nghymru.
<b>D.S. Os ystyrir bod modd cyfiawnhau'r effaith, yna dylid amlinellu'r rhesymau yn glir.</b>	
	Mae cynlluniau a gostyngiadau amrywiol ar gael ar gyfer cartrefi, fodd



	bynnag, cynghorau lleol sy'n rheoli'r rhain, ac nid oes gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddun unrhyw ddylanwad drostynt.
<b>Effaith a adnabuwyd:</b>	<u>Oed:</u> Yr effaith ariannol ar gymunedau lleol a'r effaith anghymesur posibl ar enillwyr cyflog is, pobl sydd wedi ymddeol a myfyrwyr.
<b>Camau a gynigiwyd :</b>  <b>D.S. Os ystyrir bod modd cyfiawnhau'r effaith, yna dylid amlinellu'r rhesymau yn glir.</b>	Mae gostyngiad o 25% ar gael ar gyfer y bil os ydych chi'n cyfrif fel oedolyn ar gyfer Treth Gyngor ac rydych chi naill ai'n: <ul style="list-style-type: none"> <li>• byw ar ben eich hun, neu</li> <li>• does neb arall yn cyfrif fel oedolyn yn eich cartref.</li> <li>• Mae gostyngiad o 50% ar gael fel arfer os nad oes neb sy'n byw yn y cartref yn cyfrif fel oedolyn.</li> <li>• Nid oes rhaid talu treth gyngor os oes pawb sy'n byw yn y cartref yn fyfyrwr llawn amser.</li> <li>• Gostyngiad y gallech ei gael ar eich treth gyngor os ydych chi ar incwm isel yw Gostyngiad Treth Gyngor – sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Cymorth Treth Gyngor.</li> </ul>
<b>Effaith a adnabuwyd:</b>	<u>Anabledd:</u> Yr effaith ariannol ar bobl sydd â nam meddyliol difrifol neu sy'n ofalwyr sy'n byw gyda'r unigolion maen nhw'n gofalu amdanynt.
<b>Camau a gynigiwyd :</b>  <b>D.S. Os ystyrir bod modd cyfiawnhau'r effaith, yna dylid amlinellu'r rhesymau yn glir.</b>	Ni chynhwysir pobl sydd â nam meddyliol difrifol wrth gyfrifo'r dreth gyngor. Nid yw gofalwyr sy'n gofalu am rywun sydd ddim yn bartner, yn ŵr, yn wraig neu'n blentyn (iau na 18 oed) iddynt ac yn byw gyda nhw'n cael eu cynnwys chwaith. Gall y cynllun gostyngiad i fand treth gyngor pobl anabl hefyd wneud pobl yn gymwys ar



	gyfer gostyngiad os ydynt yn byw mewn eiddo mwy o faint nag y byddai angen arnynt pe na baen nhw neu unrhyw ddeiliad arall yn anabl.
<b>Effaith a adnabuwyd:</b>	<u>Beichiogrwydd a Mamolaeth:</u> Yr effaith ariannol ar bobl ar absenoldeb mamolaeth a allai fod ar gyflog is am gyfnod penodol o amser.
<b>Camau a gynigiwyd :</b>  <b>D.S. Os ystyrir bod modd cyfiawnhau'r effaith, yna dylid amlinellu'r rhesymau yn glir.</b>	Gostyngiad y gallech ei gael ar eich treth gyngor os ydych chi ar incwm isel yw Gostyngiad Treth Gyngor – sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Cymorth Treth Gyngor.
<b>Dyddiad cwblhau:</b>	09/02/2021
<b>Dyddiad adolygu:</b>	09/02/2022

\*\*copïwch a gludwch y tabl uchod cynifer o weithiau ag y dymunwch chi, gan ddibynnu ar nifer yr 'effeithiau' a adnabuwyd)